Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG50523**

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cadw coed a choedwigoedd: rheoliadau newydd

Chwefror 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2026 ISBN digidol 978-1-83745-099-2

## Trosolwg

Ers dros 80 mlynedd, mae coed a choetiroedd sydd o werth amwynder arbennig wedi cael eu gwarchod gan orchmynion cadw. Mae angen cael cydsyniad gan yr awdurdod cynllunio cyn gwneud unrhyw waith ar goed a choetiroedd o'r fath, yn amodol ar eithriadau amrywiol. Os na cheir cydsyniad, mae'r rhai sy'n gwneud gwaith o'r fath yn cyflawni trosedd.

Cyflwynodd Deddf Cynllunio 2008 system symlach o reolaeth, fel y bydd gorchmynion cadw yn y dyfodol yn llawer symlach ond yn cadw'r lefel bresennol o warchodaeth ar gyfer coed a choetir. Bydd y weithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn, yr eithriadau i'r angen am gydsyniad a'r weithdrefn ar gyfer cael cydsyniad i gyd wedi'u cynnwys mewn un set o reoliadau.

Rhagwelir y bydd y system newydd a gyflwynir gan Ddeddf 2008 yn dod i rym yng Nghymru pan ddaw Bil Cynllunio (Cymru) i rym, ac o gael cymeradwyaeth y Senedd, cyhoeddir set newydd o reoliadau cysylltiedig.

Cyhoeddwyd papur ymgynghori ym mis Tachwedd 2024, yn esbonio'r newidiadau y bwriedir eu cyflwyno yn y rheoliadau newydd, gyda'r teitl dros dro Rheoliadau Cynllunio (Cadw Coed) (Cymru), a gwahoddwyd rhanddeiliaid i fynegi barn ar y newidiadau hyn.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r papur ymgynghori.

## Camau i’w Cymryd

Mae’r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Gynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: gemma.wheeler@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o’r ymateb a chopïau o’r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Cadw coed a choedwigoedd: rheoliadau newydd | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

Cynnwys 4
1. Cyflwyniad 5
2. Yr ymarferiad ymgynghori 6
3. Themâu ailadroddus 8
4. Ffactorau sydd i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn cadw9
5. Gwneud, amrywio a dirymu gorchmynion cadw 11
6. Gweithgareddau y gellir eu gwahardd gan orchymyn cadw 13
7. Coed mewn ardal gadwraeth 19
8. Ceisiadau am gydsyniad ar gyfer gweithgareddau gwaharddedig 20
9. Apelau ac iawndal 22
10. Amnewid coed 24
11. Pwyntiau amrywiol 25
12. Pwyntiau atodol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau blaenorol 27

Atodiad A. Rhestr o'r ymatebwyr 30

## 1. Cyflwyniad

1.1. Ers dros 80 mlynedd, mae coed a choetiroedd sydd o werth amwynder arbennig wedi cael eu gwarchod gan orchmynion cadw. Mae angen cael cydsyniad gan yr awdurdod cynllunio cyn gwneud unrhyw waith ar goed a choetiroedd o'r fath, yn amodol ar eithriadau amrywiol. Os na cheir cydsyniad, mae gwneud gwaith o'r fath yn drosedd.

1.2. Cyflwynodd Deddf Cynllunio 2008 ddiwygiadau amrywiol i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gan greu system symlach o reolaeth, fel y bydd gorchmynion cadw yn y dyfodol yn llawer symlach ond yn cadw'r lefel bresennol o warchodaeth ar gyfer coed a choetir. Yn y dyfodol, bydd y weithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn, yr eithriadau i'r angen am gydsyniad a'r weithdrefn ar gyfer cael cydsyniad i gyd wedi'u cynnwys mewn un set o reoliadau.

1.3. Mae darpariaethau perthnasol Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2008, yn cael eu hailddatgan fel Rhan 9 o'r Bil Cynllunio (Cymru) (“y Bil”), sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd.

1.4. Ar y dyddiad pan ddaw Rhan 9 o'r Bil i rym (“y diwrnod perthnasol”), bydd yn cael ei hategu gan reoliadau newydd gyda'r teitl dros dro Rheoliadau Cynllunio (Cadw Coed) (Cymru), y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel “y Rheoliadau”.

1.5. Yn unol ag argymhelliad gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad yn 2019 o’r enw *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, bydd gorchmynion sy'n cael eu gwneud ar ôl y diwrnod perthnasol i warchod coed a nodir yn unigol neu fel grŵp, neu drwy gyfeirio at ardal, yn parhau i gael eu galw'n orchmynion cadw coed. Ond bydd gorchmynion sy'n cael eu gwneud i warchod coetiroedd – sydd wedi cael eu trin gan y gyfraith ychydig yn wahanol erioed – yn cael eu galw'n “gorchmynion cadw coetir” yn y dyfodol.

1.6. Mae Bil Darpariaethau Canlyniadol Cynllunio (Cymru) (Atodlen 5, paragraff 17) yn darparu y bydd gorchymyn cadw coed presennol (a wnaed cyn y diwrnod perthnasol), i'r graddau y mae'n gwarchod coed a nodir yn unigol, fel grŵp, neu drwy gyfeirio at ardal, yn parhau i gael ei alw'n orchymyn cadw coed. Dim ond adnabod y coed a warchodir y bydd y cyfryw orchymyn; bydd yr holl fanylion eraill, a oedd yn flaenorol yn rhan o'r gorchymyn ei hun, yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau yn y dyfodol.

1.7. Yn yr un modd, bydd gorchymyn cadw coed presennol, i'r graddau y mae'n gwarchod coetiroedd, yn cael ei drin yn y dyfodol fel gorchymyn cadw coetir. Dim ond adnabod y coetiroedd a warchodir y bydd y cyfryw orchymyn; bydd yr holl fanylion eraill, a oedd yn flaenorol yn rhan o'r gorchymyn ei hun, yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau yn y dyfodol.

1.8. Lle bo'n briodol, mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at y ddau fath o orchymyn fel “gorchmynion cadw”. Mae'n cyfeirio at goeden sydd naill ai'n destun

gorchymyn cadw coed neu sydd mewn coetir sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw coetir fel “coeden sy'n cael ei gwarchod”.

## 2. Yr ymarferiad ymgynghori

2.1. Gwnaethom gyhoeddi papur ymgynghori *Cadw Coed a Choedwigoedd: Rheoliadau Newydd* ar 15 Tachwedd 2024. Roedd yn esbonio'r newidiadau y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno yn y Rheoliadau ac yn gwahodd rhanddeiliaid i fynegi barn arnynt. Roedd modd ymateb i'r ymgynghoriad dros gyfnod o dri mis, tan 14 Chwefror 2025.

2.2. Gofynnwyd cyfanswm o 35 o gwestiynau penodol. Mae adrannau 3 i 11 o'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a'r sylwadau parthed pob set o gwestiynau ac yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru.

2.3. Hysbyswyd rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau ac unigolion, am gyhoeddi'r papur ymgynghori ym mis Tachwedd 2024. Roedd hyn yn cynnwys yr holl awdurdodau cynllunio (awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol), cyrff cyhoeddus eraill, grwpiau â buddiant arbennig, busnesau ac ymgynghorwyr, ac unigolion. Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru.

2.4. Cynhaliwyd digwyddiad ar-lein ar gyfer rhanddeiliaid ar 11 Rhagfyr 2024, lle esboniwyd y cynigion ac roedd cyfle i ofyn cwestiynau. Mynychodd 76 o bobl.

2.5. Gofynnodd y papur ymgynghori 32 o gwestiynau penodol am faterion y dylid eu cynnwys yn y Rheoliadau. Hefyd, gofynnodd dri chwestiwn am effaith gwneud y Rheoliadau ar yr iaith Gymraeg, a'r dull i'w ddefnyddio wrth gyfrifo costau'r newidiadau. Hefyd, roedd yn cynnig cyfle i'r ymatebwyr godi unrhyw faterion cysylltiedig eraill, mewn ymateb i'r cwestiwn olaf.

2.6. Mewn perthynas â'r rhan fwyaf o gwestiynau, gofynnwyd i'r ymatebwyr roi ateb cadarnhaol (gyda sylwadau), neu ateb negyddol. Hefyd, roedd lle iddynt wneud sylwadau pellach, neu egluro eu hymateb.

*Ymatebwyr*

2.7. Cafwyd 38 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Dyma fanylion yr ymatebwyr:

| Categori | Nifer |
|---|---|
| Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol | 9 |
| Cynghorau cymuned | 3 |
| Cyrff statudol eraill | 1 |
| Cyrff arbenigol sy'n gysylltiedig â choed | 4 |
| Cyrff proffesiynol a grwpiau diddordeb eraill | 5 |
| Cyrff gwirfoddol | 3 |
| Busnesau / ymgynghorwyr | 5 |
| Unigolion | 8 |
| **Cyfanswm** | **38** |

2.8. Yr awdurdodau cynllunio – awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol – sydd â'r profiad mwyaf o weithredu'r system bresennol. Ymatebodd saith awdurdod lleol yn unigol, a chyflwynodd chwe awdurdod yng ngogledd Cymru ymateb ar y cyd; fel y gwnaeth dau awdurdod parc cenedlaethol. Mae hyn yn golygu bod ymatebion wedi'u derbyn gan 15 (mwy na hanner) o'r 25 awdurdod cynllunio.

2.9. Mae llawer o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad o natur dechnegol. Derbyniwyd ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), y corff statudol sy’n gyfrifol am weinyddu'r system trwyddedau cwympo o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967. Cafwyd ymateb hefyd gan y cyrff arbenigol sy'n gysylltiedig â choed, gan gynnwys Cymdeithas y Swyddogion Coed, y Gymdeithas Coedyddiaeth, Coed Cadw a'r Fforwm Coed Hynafol. Rhyngddynt, roedd yr ymatebion hyn yn darparu archwiliad trylwyr o'r cynigion o safbwynt y rhai sydd â gwybodaeth a phrofiad arbenigol o weithio ym maes coed a choetiroedd.

2.10. Roedd cyrff a grwpiau eraill yn cynnwys y rhai sy'n cynrychioli archeolegwyr, cynllunwyr, adarwyr a ffermwyr - pob un ohonynt â buddiannau gwahanol ym maes gwarchod coed a gwaith i goed. Roedd y busnesau a'r ymgynghorwyr yn cynnwys coedwigwyr, datblygwr tai, ymgynghorydd coed, pensaer tirwedd, a phensaer.

2.11. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr (a'r categorïau y perthynant iddynt) i'w gweld yn Atodiad A i'r ddogfen hon.

2.12. Pan fo’r ymatebwyr wedi gofyn am i’w manylion gael eu cadw’n gyfrinachol, maent yn ymddangos fel “Dienw” o dan y categori priodol. Mae pob ymatebydd sy'n perthyn i'r categori unigolyn preifat (gan gynnwys un a allai fod wedi cael ei gyflogi gan sefydliad) yn ymddangos yn ddienw, er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae ymatebion y rhai sy'n perthyn i'r ddau grŵp hyn wedi'u hystyried yn llawn.

*Ymatebion: crynodeb cyffredinol*

2.13. Fel y gellid disgwyl, roedd yr ymatebion yn dangos amrywiaeth eang o ymagweddau cyffredinol. Ar un pegwn, roedd ychydig o ymatebwyr (unigolion yn gyffredinol) o'r farn y dylid gwarchod pob coeden, a'i bod yn anghywir cynnig gwarchodaeth gyfreithiol dim ond i goed a nodir yn benodol

fel rhai sydd â gwerth amwynder. Roedd eraill (unwaith eto, unigolion yn gyffredinol) o'r farn y dylai pob perchennog coed allu plannu coed, a'u tynnu neu wneud gwaith arnynt, heb unrhyw gyfyngiadau.

2.14. Ond roedd y rhan fwyaf yn derbyn bod y system bresennol, sydd wedi bod ar waith yn ei ffurf bresennol i raddau helaeth ers 1943, yn gweithredu'n foddhaol ar y cyfan. Mae'n darparu elfen o warchodaeth ar gyfer coed a choetiroedd mwy arwyddocaol ac yn osgoi'r baich gweinyddol a fyddai'n deillio o'r angen am gael cydsyniad ar gyfer gwaith coed o bob math.

2.15. O ran y pwyntiau mwy penodol a wnaed, roedd llawer yn ymwneud â materion y byddai'n fwy priodol eu cynnwys mewn canllawiau yn hytrach na deddfwriaeth. Bydd y pwyntiau hyn yn cael eu hystyried adeg paratoi'r canllawiau a gyhoeddir i gyd-fynd â'r Rheoliadau newydd.

2.16. Roedd rhai ymatebion i un cwestiwn yn fwy perthnasol i gwestiwn gwahanol, neu i fater nad oedd yn destun cwestiwn, ac maent wedi'u nodi yn unol â hynny.

2.17. Yn y dadansoddiad ystadegol o'r ymatebion i bob cwestiwn, mewn llond llaw o achosion mae'r ymatebion wedi'u hailddyrannu yn unol â'r sylw ategol. Nid oedd yn amlwg a oedd rhai ymatebion yn ffafriol neu'n anffafriol. Mewn rhai achosion, nid oedd yr ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig, ond roedd wedi gwneud sylw ar y mater. Mewn ambell achos, mae sylwadau wedi'u hailddyrannu i'r cwestiwn y maent yn fwy perthnasol iddo.

2.18. Mewn ambell achos, mae ymatebydd wedi codi'r un mater mewn ateb i nifer o gwestiynau; nid ydym bob amser wedi cyfeirio at y mater mewn perthynas â phob cwestiwn, ond rydym wedi nodi cryfder y teimlad sydd wedi sbarduno'r ailadrodd.

2.19. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn syml yn anghytuno â chynnig (bron pob cynnig mewn ambell achos) heb o reidrwydd gynnig unrhyw esboniad.

2.20. Am y rhesymau hyn a rhesymau eraill, dylid trin yr union ddadansoddiad rhifyddol o’r ymatebion yn ofalus. Ond mae'r farn gyffredinol yn glir.

2.21. Yn amodol ar yr uchod, rydym wedi darllen yr holl ymatebion i bob cwestiwn yn ofalus. Yn y penodau canlynol o'r ddogfen hon, nid ydym wedi cynnwys nac wedi cyfeirio at bob ymateb ond rydym wedi ceisio crynhoi'r prif faterion a godwyd.

## 3. Themâu ailadroddus

3.1. Mae adrannau 4 i 12 o'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion yn ymwneud â phob pwnc cyffredinol, gan nodi'r prif faterion a godwyd yn yr atebion i bob cwestiwn. Mae rhai themâu yn ailymddangos yn yr atebion a roddwyd i nifer o'r cwestiynau. Er mwyn osgoi ailadrodd, rydym wedi'u nodi yma.

3.2. Yn gyntaf, awgrymodd sawl ymatebydd fod angen cydnabod coed hynafol a choed hynod mewn ffordd lawer mwy penodol. Hefyd, nodwyd ganddynt fod angen ystyriaethau arbennig pan fydd awdurdodau yn ymdrin â cheisiadau (gan gynnwys ceisiadau cynllunio) ar gyfer gwaith sy'n effeithio arnynt.

3.3. *Ymateb Llywodraeth Cymru:* Trwy ehangu'r meini prawf sy'n cyfiawnhau gwneud gorchymyn cadw, y gobaith yw y bydd awdurdodau yn cael eu hannog i wneud gorchmynion i warchod coed o'r fath. Bydd y rheolau parthed gwneud gorchmynion, yr angen am gydsyniad, a'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno ceisiadau a phenderfynu arnynt yn berthnasol yn yr un modd ag achosion eraill. Ond wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag a ddylid rhoi cydsyniad, ac o dan ba amodau y dylid gwneud hynny, bydd yn rhaid i awdurdodau ac arolygwyr ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol, a fydd yn cynnwys agweddau megis oedran a phrinder y coed dan sylw. Bydd arwyddocâd penodol coed hynafol a choed hynod yn cael ei bwysleisio mewn canllawiau.

3.4. Yn ail, cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud gwaith ar goed yn cydymffurfio â deddfwriaeth arall – ym meysydd penodol diogelu planhigion, adar ac anifeiliaid eraill, ac archaeoleg.

3.5. *Ymateb Llywodraeth Cymru:* Mae angen gwerthfawrogi nad yw cydsyniad o dan y Rheoliadau Coed yn osgoi'r angen am awdurdodiad o dan unrhyw god statudol arall. Bydd y mater hwn hefyd yn cael ei bwysleisio yn y canllawiau a gyhoeddir i gyd-fynd â'r Rheoliadau.

3.6. Yn drydydd, honnodd rhai ymatebwyr fod enghreifftiau wedi bod o dorri rheolau a chamddefnyddio consesiynau. Pwysleisiodd eraill yr angen am adnoddau priodol ar gyfer y system gyfan. Ac roedd rhai yn pwysleisio dymuniad i sicrhau ymarfer cyson ledled Cymru.

3.7. *Ymateb Llywodraeth Cymru:* Rydym yn nodi'r pryderon hyn, sy'n berthnasol i unrhyw system reoli. Byddwn yn cynhyrchu canllawiau i leihau'r pryderon hyn i'r graddau y bo hynny’n bosibl.

## 4. Ffactorau sydd i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn cadw

4.1. Wrth ystyried a ddylid gwneud gorchymyn cadw, rhaid i awdurdod cynllunio benderfynu a fyddai gwneud hynny'n briodol er budd amwynder. Mae'r un peth yn wir pan fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried a ddylid gwneud gorchymyn.

4.2. Mae “amwynder” yn derm cyffredinol, ac argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai'r rheoliadau ragnodi'r materion sydd angen eu hystyried wrth wneud penderfyniad o'r fath. Felly, amlinellodd y cwestiwn cyntaf ystod o faterion y gellid eu hystyried wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn, ac o

ganlyniad, wrth wneud penderfyniadau am y coed sydd wedi'u gwarchod. Ni fydd pob un yn berthnasol ym mhob achos.

| C1 | A ydych yn cytuno â'r rhestrau o faterion sydd i'w hystyried ym mharagraffau 6.5 a 6.6 o'r Ddogfen hon wrth wneud gorchymyn cadw coed neu orchymyn cadw coetir er budd amwynder? |
|---|---|

4.3. Cafwyd mwy o ymateb i'r cwestiwn hwn nag i unrhyw gwestiwn arall.

4.4. Roedd 34 o'r 38 ymatebydd wedi ateb y cwestiwn hwn. Roedd llawer yn croesawu'r egwyddor o ehangu'r meini prawf sy'n cyfiawnhau gwneud gorchymyn i gynnwys ffactorau penodol heblaw amwynder gweledol yn unig. Roedd 31 yn cytuno â'r rhestrau arfaethedig o faterion i'w hystyried, ac roedd mwy na hanner wedi gwneud sylwadau atodol.

4.5. Un thema ailadroddus oedd yr angen am ganllawiau clir ar sut i fesur nodweddion gwahanol goed a choetiroedd, er mwyn osgoi barn oddrychol. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y system TEMPO *(Dull Gwerthuso Coed ar gyfer Gorchmynion Cadw*); er y byddai angen diweddaru'r dull hwn i adlewyrchu'r meini prawf newydd.

4.6. Cafwyd y sylwadau penodol canlynol am y meini prawf arfaethedig:

- *Oedran a phrinder:* byddai hyn yn arwain at warchod mwy o goed hynafol a choed hynod; ond ni ddylai olygu y byddai coed hŷn yn cael blaenoriaeth dros goed iau o reidrwydd. Mae angen ystyried prinder yn ei gyd-destun; ac mae angen ystyried oedran mewn perthynas â genws a rhywogaeth. Hefyd, gallai fod yn berthnasol ystyried oedran y coetir dan sylw, yn ogystal ag oedran y coed sydd ynddo.
- *Ymddangosiad:* byddai'n ddefnyddiol cael rhestr o ffactorau i'w hystyried, ynghyd ag esboniad clir o arwyddocâd gwelededd i'r cyhoedd.
- *Cyfraniad at fioamrywiaeth:* mae angen diffinio'r elfen hon yn glir hefyd, i gynnwys mwy na phresenoldeb rhywogaethau a warchodir yn unig.
- *Gwerth hanesyddol, gwyddonol a hamdden:* gallai gwerth “diwylliannol a threftadaeth” fod yn derm gwell na gwerth “hanesyddol”; a gallai “amgylcheddol” fod yn derm gwell na “gwyddonol”. Mae rhai coed yn gwneud mwy o gyfraniad at leihau llygredd neu fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae rhai yn bwysig am resymau meddyginiaethol.

4.7. Ffactorau eraill a allai fod yn briodol i'w cynnwys yn y rhestr yw gwerth cymdeithasol a chymunedol coeden. Hefyd, dylid ystyried sut i asesu coeden sydd newydd gael ei phlannu.

4.8. Gallai ehangu'r meini prawf ar gyfer gwneud gorchymyn arwain at fwy o bwysau i wneud gorchmynion newydd, ac mae angen sicrhau bod gan awdurdodau adnoddau digonol.

4.9. Roedd un o'r pedwar ymatebydd a oedd yn anghytuno yn awgrymu y gallai fod yn fwy priodol cynnwys meini prawf ar gyfer gwneud gorchmynion mewn canllawiau yn hytrach na rheoliadau. Roedd un yn credu y dylai “amwynder” gynnwys budd y cyhoedd bob amser, a fyddai'n awgrymu hygyrchedd neu weledEdd fel arfer. Roedd un yn anghytuno ar y sail y dylai fod angen cydsyniad i wneud gwaith ar unrhyw goeden heblaw am un mewn gardd ddomestig.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 1*

4.10. Rydym yn croesawu'r ymatebion ystyriol i'r cwestiwn hwn, a'r sylwadau cefnogol niferus. Ymddengys bod cefnogaeth fawr i'r dull gweithredu cyffredinol sy'n cael ei gynnig; byddwn yn ystyried y termau sydd i'w defnyddio yn y Rheoliadau yn ofalus. Hefyd, byddwn yn cyhoeddi canllawiau law yn llaw â’r rheoliadau, ac rydym yn derbyn y gallai fod yn briodol cynnwys rhai o'r pwyntiau mwy manwl a gafodd eu gwneud.

## 5. Gwneud, amrywio a dirymu gorchmynion cadw

5.1. Roedd y ddau gwestiwn cyntaf o dan y pennawd hwn yn ymwneud â'r ddau orchymyn enghreifftiol a gafodd eu cynnwys fel Atodiadau 3 a 4 i'r papur ymgynghori. Roedd y trydydd yn ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchmynion.

| | |
|---|---|
| **C2** | A ydych yn cytuno â'r gorchymyn cadw coed enghreifftiol yn Atodiad 3 i'r Ddogfen hon? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |

5.2. Atebodd cyfanswm o 32 o ymatebwyr y cwestiwn hwn; roedd 29 yn cytuno (mewn tua 50% o achosion, yn amodol ar sylwadau).

5.3. Nododd sawl ymatebydd y dylai'r gorchymyn gyfeirio at waharddiad yn erbyn difrodi neu ddinistrio “bwriadol” *(“intentional”)* neu “ddi-hid” (yn hytrach na “bwriadol” (*“wilful”*)). Awgrymodd rhai y dylai erthygl 3 gyfeirio at y coed sy'n cael eu gwarchod drwy gyfeirio at y map sy'n cyd-fynd â'r gorchymyn, yn ogystal â thrwy gyfeirio at yr atodlen. Gofynnodd rhai a fyddai angen cyhoeddi gorchmynion yn y Gymraeg a'r Saesneg.

5.4. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at faterion a allai gael eu cynnwys yn y gorchymyn ei hun ond y byddai'n well eu cynnwys o bosibl mewn taflen ganllaw sy'n cyd-fynd â'r gorchymyn – er enghraifft, egluro ystyr “brigdorri a thocio”, a thynnu sylw at y ffaith bod ymgymryd â gwaith anawdurdodedig yn drosedd.

5.5. Cyfeiriodd un ymatebydd at yr angen i fod yn ofalus wrth ddefnyddio gorchmynion sy'n gwarchod coed a nodir fel grŵp neu drwy gyfeirio at ardal.

| C3 | A ydych yn cytuno â'r gorchymyn cadw coetir enghreifftiol yn Atodiad 4 i'r ddogfen hon? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |
|---|---|

5.6. Atebodd cyfanswm o 28 o ymatebwyr y cwestiwn hwn; roedd 24 yn cytuno (mewn tua 37% o achosion, yn amodol ar sylwadau).

5.7. Cyfeiriodd y cwestiwn hwn at "orchmynion cadw coetir", a fydd yn gysyniad newydd. Yma hefyd, byddai'n ddefnyddiol cynnwys esboniad bras o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn "goetir" (yn hytrach na diffiniad manwl) mewn taflen ganllaw i gyd-fynd â gorchmynion newydd. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am y posibilrwydd y byddai hyn yn arwain at waith ychwanegol. Roedd eraill yn croesawu'r gwahaniaeth rhwng gorchmynion cadw coed a chadw coetir.

5.8. Roedd rhai ymatebwyr wedi codi'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 5.3 uchod.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiynau 2 a 3*

5.9. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i'r gorchmynion enghreifftiol a byddwn yn ystyried y pwyntiau manwl a godwyd – naill ai wrth ddrafftio'r gorchmynion enghreifftiol a fydd yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau, neu yn y canllawiau ategol. Yn benodol, bydd canllawiau yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng gorchmynion cadw coed a gorchmynion cadw coetir, a byddant yn cyfeirio at goed pori a thir parc.

5.10. Hefyd, bydd canllawiau yn pwysleisio'r ffaith bod diweddaru gorchmynion o bryd i'w gilydd yn enghraifft o ymarfer da er mwyn darparu ar gyfer amgylchiadau sy'n newid, ond nad oes angen ail-wneud gorchmynion sy'n bodoli eisoes. Byddant yn dod i rym yn awtomatig fel gorchmynion cadw coed neu orchmynion cadw coetir fel sy'n briodol.

| C4 | A ydych yn cytuno â'r weithdrefn arfaethedig ar gyfer gwneud gorchmynion cadw coed a choetir? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |
|---|---|

5.11. Roedd y cwestiwn hwn yn pwysleisio'r ffaith y byddai'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn yn aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth, yn amodol ar un neu ddau o fân newidiadau. Atebodd cyfanswm o 32 o ymatebwyr y cwestiwn hwn; roedd 28 yn cytuno (mewn tua 50% o achosion, yn amodol ar sylwadau).

5.12. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r weithdrefn, yn amodol mewn rhai achosion ar sylwadau a wnaed mewn perthynas â Chwestiynau 2 a 3. Ni chafwyd llawer o sylwadau gan yr awdurdodau cynllunio, ac eithrio mewn perthynas â phwy sydd angen ei hysbysu am wneud gorchymyn (roedd ymatebwyr eraill wedi codi'r pwynt hwn hefyd).

5.13. Yn gyffredinol, roedd y cyrff arbenigol sy'n gysylltiedig â choed yn cefnogi'r weithdrefn, ond awgrymodd un y dylai'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud gorchymyn gael eu cynnwys mewn canllawiau yn hytrach na rheoliadau. Ond roeddent yn gwrthwynebu'n gryf y cynnig y dylid addasu gorchmynion

sy'n nodi coed trwy gyfeirio at ardal, ar ôl cael eu cadarnhau, bob amser er mwyn nodi'r coed yn unigol neu fel grwpiau.

5.14. Roedd sawl ymatebydd yn cwestiynu'r cyfnod chwe mis ar gyfer cadarnhau gorchymyn, o ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r awdurdodau. Awgrymodd un y dylai gorchymyn nodi'r materion a ystyriwyd wrth ei gynnig (y tu hwnt i ddatgan “er budd amwynder” yn unig).

5.15. Roedd un ymatebydd yn credu'n gryf bod angen adolygu gorchmynion cadw coed yn rheolaidd.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 4*

5.16. Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am y sylwadau a ddaeth i law, ac yn nodi bod cefnogaeth gyffredinol i barhau â'r weithdrefn gwneud gorchmynion sy'n bodoli ar hyn o bryd.

5.17. Bydd y canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau yn pwysleisio ymarfer da – yn enwedig o ran pwy y dylid ymgynghori â nhw, a sut y dylid ymdrin â sylwadau. Mae'r cyfnod chwe mis arfaethedig ar gyfer cadarnhau yn cyd-fynd â'r sefyllfa bresennol, ond bydd hyn yn cael ei adolygu. Hefyd, pwysleisir pwysigrwydd adolygu gorchmynion.

5.18. Bydd y defnydd o orchmynion ardal – fel mesur brys ac yn barhaus – yn cael ei fonitro ar sail y sylwadau defnyddiol a wnaed.

## 6. Gweithgareddau y gellir eu gwahardd gan orchymyn cadw

6.1. Mae'r Bil yn darparu y gall rheoliadau wahardd ystod o weithgareddau heb gydsyniad, yn amodol ar nifer o eithriadau.

| | |
|---|---|
| C5 | A ydych yn cytuno â'r mathau o waith sydd i'w gwahardd gan orchymyn cadw coed neu goetir fel y nodir ym mharagraff 8.3? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |

6.2. Rydym wedi cynnig y dylai gorchymyn wahardd torri, tocio, brigdorri neu ddadwreiddio coeden sydd wedi'i gwarchod, difrodi neu ddinistrio coeden o'r fath yn fwriadol neu'n ddi-hid, ac achosi neu ganiatáu unrhyw un o'r gweithrediadau hynny.

6.3. Atebodd 34 o ymatebwyr y cwestiwn hwn; cytunodd 30 (18 heb wneud sylw, 12 yn amodol ar sylwadau).

6.4. Roedd sawl un yn cytuno â'r mathau o waith a oedd yn cael eu cynnig, ond gan awgrymu y dylai'r mathau o waith sydd i'w gwahardd gynnwys torri gwreiddiau a difrodi'r amgylchedd gwreiddiau - gan gynnwys draenio a newidiadau i'r lefel. Roedd un ymatebydd yn awgrymu y dylai'r Rheoliadau gyfeirio at goeden gyfan neu ran ohoni.

6.5. Roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu'r defnydd parhaus o'r termau “brigdorri neu docio”. Cyfeiriodd rhai at ddryswch rhwng y gair “tocio”

*(lopping)* a “tocio” *(pruning)*. Cwestiynodd un a ddylid ceisio osgoi “brigdorri”, gan y byddai'n newid ffurf tyfiant coeden ifanc.

6.6. Nododd sawl ymatebydd fod rhai mathau o waith yn cael llawer mwy o effaith nag eraill. Roedd un o'r farn y dylid caniatáu prysgoedio a bôn-docio bob amser.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 5*

6.7. Nodwn fod yr ymateb cyffredinol yn ffafriol; ac yn benodol bod y newid o “bwriadol” *(wilful)* i “fwriadol *(intentional)* neu ddi-hid” wedi cael ei groesawu.

6.8. Rydym yn cytuno bod y termau “brigdorri” a “thocio” braidd yn hen ffasiwn erbyn hyn, ond gyda'i gilydd maent yn cynnwys unrhyw newid i goeden – naill ai'n ystlys fertigol neu lorweddol. Bydd y mater hwn yn cael ei egluro mewn canllawiau. Ond byddwn yn ystyried a ddylid diffinio “tocio” yn y Rheoliadau er mwyn cynnwys yn benodol tocio canghennau neu wreiddiau, a sut y dylid ymdrin â “thocio” (*“pruning”*).

6.9. Hefyd, bydd y canllawiau yn nodi bod angen cydsyniad ar gyfer ystod eang o fathau o waith (yn amodol ar yr eithriadau penodedig; gweler isod); ond nid yw hyn yn golygu y bydd cydsyniad yn cael ei roi neu ei wrthod bob amser; bydd pob cynnig yn cael ei asesu ar sail ei rinweddau ei hun, gan ystyried ei effaith debygol.

| | |
|---|---|
| **C6** | A ydych yn cytuno â'r eithriadau arfaethedig sy'n ymwneud â symud ymaith ganghennau marw (Dosbarth A)? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |

6.10. Arweiniodd y cwestiwn hwn at fwy o ymateb negyddol nag unrhyw gwestiwn arall. O'r 33 a ymatebodd, roedd 17 wedi cytuno heb wneud sylw, roedd 9 wedi cytuno yn amodol ar sylw, ac roedd saith yn anghytuno. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn yn gamarweiniol, gan fod llawer o'r rhai a oedd yn “cytuno” â'r eithriad arfaethedig wedi mynd ymlaen i'w feirniadu yn eu sylwadau manwl.

6.11. Roedd un ymatebydd yn cytuno'n gryf, gan nodi bod symud ymaith ganghennau marw mewn modd amserol yn hanfodol.

6.12. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr eraill a oedd wedi gwneud sylwadau, a'r rhai a oedd wedi gwrthwynebu (ac wedi gwrthwynebu'n gryf mewn rhai achosion), wedi codi'r un pwyntiau yn fras:

- gellir symud ymaith ganghennau marw sy'n achosi perygl heb gydsyniad, gan ddibynnu ar Ddosbarth B; felly, byddai'r Dosbarth hwn (Dosbarth A) ddim ond yn angenrheidiol i ganiatáu symud ymaith ganghennau nad ydynt yn beryglus;
- gall canghennau marw ddarparu cynefin da ar gyfer organebau eraill, a gallai'r broses o'u symud ymaith niweidio bioamrywiaeth;

- nid yw symud ymaith ganghennau marw fel rhan o waith cynnal a chadw coed arferol yn enghraifft o ymarfer da, oni bai eu bod yn beryglus;
- mae'r dosbarth hwn yn llai priodol o ystyried y meini prawf estynedig sy'n cyfiawnhau creu gorchymyn cadw coed neu orchymyn cadw coetir, i gynnwys bioamrywiaeth a gwerth cynefin;
- gellid cyfiawnhau gwaith mân iawn ar y sail nad yw “tocio” *(“lopping”)* yn cynnwys “tocio” *(“pruning”)*; ac
- nid oes modd pennu'r ffin rhwng pren marw a phren byw bob amser.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 6*

6.13. Mae'r Llywodraeth yn nodi'r lefel uchel o bryder a fynegwyd – a allai i ryw raddau adlewyrchu'r ffaith fod safbwyntiau ar y mater hwn wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod ymwybyddiaeth o werth canghennau marw fel cynefin i fywyd gwyllt a phlanhigion eraill wedi cynyddu. Bydd yn ystyried yn ofalus a oes angen y Dosbarth hwn yn ogystal â Dosbarth B.

| | |
|---|---|
| **C7** | A ydych yn cytuno â'r eithriadau arfaethedig sy'n ymwneud â gwaith i gael gwared ar risg o niwed (Dosbarth B)? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |

6.14. Mae'r eithriad hwn yn ymwneud â disodli'r ddarpariaeth bresennol lle mae modd gwneud gwaith heb gydsyniad ar goed “sy'n marw neu sydd wedi marw neu sy'n beryglus”. Ni fyddai unrhyw eithriad ar y sail bod y goeden dan sylw yn marw neu'n farw, a bydd elfen “beryglus” yr eithriad yn cael ei chryfhau.

6.15. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn. Roedd 27 o'r 31 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn o blaid y cynnig; a chyflwynodd 11 ohonynt sylwadau.

6.16. Nododd CNC fod yr eithriad hwn yn debyg i'r eithriad cyfatebol i'r angen am drwydded cwympo coed o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967. Cyfeiriodd y Swyddogion Archeolegol at y broblem sy'n codi pan fydd gwaith yn effeithio ar heneb gofrestredig.

6.17. Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ac i'r cwestiynau sy'n dilyn yn ymwneud ag eithriadau eraill, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen i gymryd gofal er mwyn osgoi niweidio rhywogaethau gwarchodedig (yn enwedig adar).

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 7*

6.18. Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am y gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn. Bydd yn ystyried y sylwadau yn ofalus, a gallai rhai ohonynt fod yn addas i'w cynnwys mewn canllawiau – er enghraifft, sylwadau yn ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am waith yn y categori hwn, a'r angen i osgoi niwed i rywogaethau gwarchodedig.

| C8 | A ydych yn cytuno â'r eithriadau arfaethedig sy'n ymwneud â gwaith i gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol neu rwymedigaethau eraill (Dosbarth C)? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |
|---|---|

6.19. Atebodd 32 o ymatebwyr; roedd 29 yn cytuno, ac roedd naw ohonynt wedi gwneud sylwadau.

6.20. Cyfeiriodd rhai at yr angen i gydymffurfio â deddfwriaeth arall (yn ymwneud â rhywogaethau gwarchodedig ac archaeoleg); a chyfeiriodd eraill at y perygl o ddibynnu ar eithriad o'r fath mewn ffordd amhriodol. Awgrymodd un neu ddau y dylid hysbysu'r awdurdod cynllunio am waith o'r fath. Awgrymodd rhai ymatebwyr na ddylai'r Dosbarth hwn fod yn berthnasol i waith sy'n cael ei wneud ar goed hynod a choed hynafol.

| C9 | A ydych yn cytuno â'r eithriadau arfaethedig sy'n ymwneud â gwaith gan ymgymerwyr statudol a chyrff cyhoeddus eraill (Dosbarth D)? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |
|---|---|

6.21. Roedd 31 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn; roedd 26 yn cytuno, ac roedd 15 ohonynt wedi gwneud sylwadau.

6.22. Roedd rhai ymatebwyr wedi codi'r un pwyntiau â'r rhai a nodwyd ar gyfer y Dosbarth blaenorol (gweler paragraff 6.20 uchod). Cyfeiriodd rhai at ansicrwydd ynglŷn ag ystyr “tir gweithredol”.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiynau 8 a 9*

6.23. Rydym yn ddiolchgar am yr adborth. Mae'r ddau eithriad hyn yn bodoli ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig. Fydd bynnag, bydd angen canllawiau er mwyn sicrhau nad yw'r Dosbarthiadau yn cael eu camddefnyddio; os ydynt yn cael eu camddefnyddio, byddwn yn ystyried a oes angen rhoi gwybod am waith o'r fath (ac eithrio mewn argyfwng). Hefyd, byddwn yn egluro yn y canllawiau pa gyrff sy'n cael eu trin fel “ymgymerwyr statudol” at ddibenion yr eithriad hwn, a beth yw tir gweithredol.

| C10 | A ydych yn cytuno â'r eithriadau arfaethedig sy'n ymwneud â gwaith sy'n angenrheidiol i weithredu caniatâd cynllunio (Dosbarth E(1))? |
|---|---|

6.24. Atebodd 34 o ymatebwyr. Roedd 28 yn cytuno, ac roedd mwy na hanner ohonynt wedi gwneud sylwadau.

6.25. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen i egluro nad yw hyn yn ymestyn i waith datblygu sydd wedi'i awdurdodi gan ganiatâd amlinellol neu gan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir (“datblygiad a ganiateir”). Awgrymodd rhai na ddylai fod yn berthnasol i goed hynafol neu goed hynod.

6.26. Cyfeiriodd rhai at y ffaith ei bod yn bwysig i awdurdodau cynllunio ystyried coed wrth asesu datblygiad arfaethedig. Cyfeiriodd un at achosion lle mae ymgeisydd am ganiatâd cynllunio yn nodi na fydd unrhyw goed yn cael eu heffeithio gan ddatblygiad arfaethedig, fel nad yw'r awdurdod yn archwilio'r coed ar y safle; ond pan fydd y datblygiad yn mynd rhagddo, mae coed yn cael eu symud ymaith heb ganiatâd.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 10*

6.27. Rydym yn ddiolchgar am yr adborth. Mae'r dosbarth hwn yn bodoli ar hyn o bryd, ac nid yw'n berthnasol i waith sydd angen ei wneud fel rhan o ddatblygiad sydd wedi'i awdurdodi gan ganiatâd amlinellol neu ddatblygiad a ganiateir; ond nodir hynny'n glir yn y canllawiau. Hefyd, bydd angen atgoffa awdurdodau o bwysigrwydd ystyried coed a choetiroedd (naill ai'r rhai sy'n cael eu gwarchod gan orchmynion neu unrhyw un arall) wrth asesu datblygiad arfaethedig - a sicrhau bod amodau sy'n gysylltiedig â choed yn cael eu gweithredu.

| | |
|---|---|
| **C11** | A ydych yn cytuno â'r eithriadau arfaethedig sy'n ymwneud â gwaith sy'n angenrheidiol i weithredu awdurdodiad o dan Ddeddf Glo Brig 1958 (Dosbarth E(2))? |

| | |
|---|---|
| **C12** | A oes gennych unrhyw brofiad o unrhyw achosion yn ymwneud â symud coed ymaith sydd ei angen i wneud gwaith a awdurdodwyd o dan Ddeddf 1958? Os felly, a allwch roi unrhyw fanylion? |

6.28. Mae mwyngloddio glo brig yn un math penodol o ddatblygiad lle y bydd angen symud ymaith goed gwarchodedig o bosibl. Mae Dosbarth E(2) arfaethedig yn ailddatgan y ddarpariaeth, sydd ar hyn o bryd wedi'i chynnwys yn adran 198(7)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud â symud ymaith goed sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithrediadau glo brig sydd wedi'u hawdurdodi o dan Ddeddf Glo Brig 1958.

6.29. Roedd 26 o ymatebwyr wedi ateb cwestiwn 11. Roedd bron pawb yn cytuno â'r cwestiwn ac ni chafwyd sylwadau.

6.30. Rydym yn ymwybodol nad oes unrhyw awdurdodiad o'r fath wedi'i gyhoeddi ers bron i ddeng mlynedd ar hugain, felly gwnaethom ofyn hefyd a oedd gan unrhyw ymatebwyr brofiad o'r ddarpariaeth hon. Nid oedd unrhyw un wedi cael unrhyw brofiad o'r ddarpariaeth.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiynau 11 a 12*

6.31. Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion, sy'n cadarnhau mai yn anaml iawn, os o gwbl, y mae pobl yn dibynnu ar yr eithriad hwn yn ymarferol. Mae'n debygol o gael ei gadw, am y tro o leiaf, ond efallai y caiff ei ddirwyn i ben maes o law.

| | |
|---|---|
| **C13** | A ydych yn cytuno â'r eithriad arfaethedig sy'n ymwneud â gwaith ar goed ffrwythau (Dosbarth F)? |

6.32. Atebodd 31 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd 28 yn cytuno, 9 ohonynt yn amodol ar sylwadau. Roedd 3 yn anghytuno, gan gynnwys dau awdurdod cynllunio.

6.33. Roedd un o'r rhai a oedd yn anghytuno, a sawl un o'r rhai a oedd yn cytuno mewn egwyddor, wedi cyfeirio at werth ecolegol hen berllannau, a allai gynnwys mathau prin, a gwerth rhai coed ffrwythau unigol.

6.34. Mynegodd rhai ansicrwydd ynglŷn â'r hyn y gellid ei gynnwys oddi mewn i gwmpas “tocio yn unol ag arferion garddwriaethol da”.

| C14 | A ydych yn ystyried y dylai'r rheoliadau ddiffinio “coeden ffrwythau” er mwyn cynnwys “coeden gnau”? |
|---|---|

6.35. Arweiniodd y cwestiwn hwn at fwy o sylwadau na llawer o'r cwestiynau eraill. Atebodd 30 o ymatebwyr; nododd 25 y dylai'r diffiniad gynnwys coed cnau, ond roedd 10 o'r rheiny yn amodol ar sylwadau.

6.36. Cyfeiriodd un ymatebydd at y ffaith nad oes unrhyw sail fotanegol ar gyfer gwahaniaethu rhwng y coed hyn – math o ffrwythau yw cnau. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion at y ffaith bod “coed cnau” yn cynnwys nifer o goed mawr, fel castanwydden bêr a'r dderwen. Felly, byddai eithriad cyffredinol ar gyfer coed cnau yn amhriodol. Awgrymodd eraill y gellid cyfiawnhau eithrio coed cnau sy'n cael eu tyfu at ddibenion masnachol i gynhyrchu cnau bwytadwy.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiynau 13 a 14*

6.37. Mae'r eithriad yn ymwneud â choed ffrwythau yn bodoli ar hyn o bryd ac nid oeddem yn cynnig unrhyw newid.

6.38. Rydym yn ddiolchgar am yr holl ymatebion ystyriol i'r ddau gwestiwn hyn. Byddwn yn ystyried a allai canllawiau egluro ystyr yr eithriad cyntaf (coed ffrwythau masnachol), ac o dan ba amgylchiadau y gallent gynnwys coed cnau.

6.39. Rydym yn nodi'r problemau sy'n codi mewn cysylltiad â'r ail eithriad (tocio coed ffrwythau eraill), yn benodol oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â statws “tocio”, a'r sefyllfa mewn perthynas â choed mwy o ran maint y gellid eu disgrifio fel coed cnau, a byddwn yn ystyried y ffordd orau ymlaen yn ofalus.

| C15 | A ydych yn cytuno â'r eithriad arfaethedig sy'n ymwneud â gweithrediadau coedwigaeth fel y nodir ym mharagraff 9.32 (Dosbarth G)? |
|---|---|

6.40. Byddai'r eithriad hwn yn cynnwys yn y Rheoliadau yr eithriadau sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn adran 200 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n osgoi'r angen i gael cydsyniad i bob pwrpas ar gyfer gwaith ar goed gwarchodedig sydd i'w wneud gan y Comisiwn Coedwigaeth neu CNC, neu waith sydd wedi'i gymeradwyo ganddynt.

6.41. Ymatebodd 28 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, ac roedd 24 ohonynt yn cytuno â’r cwestiwn, a hynny’n amodol ar sylwadau mewn chwe achos. Roedd yr holl awdurdodau cynllunio a chynghorau cymuned o blaid, ac ni wnaed unrhyw sylwadau.

6.42. Nododd CNC, fel y corff sy'n bennaf cyfrifol am wneud a chymeradwyo gwaith o'r fath yng Nghymru, fod gwaith coedwigaeth yn cael ei wneud yn unol â Safon Coedwigaeth y DU, sy'n cynnwys yr holl faterion sy'n berthnasol i wneud gorchmynion cadw coed a gorchmynion cadw coetiroedd

(gweler adran 4 uchod). Felly, mae'n ystyried bod yr eithriad yn briodol. Cytunodd y Fforwm Coed Hynafol.

6.43. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at yr angen i warchod coed hynafol, coed hynod a choed pwysig eraill a allai gael eu heffeithio gan weithrediadau coedwigaeth. Fodd bynnag, roedd rhai yn derbyn na fyddai hyn yn digwydd yn aml yn ymarferol.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 15*

6.44. Rydym yn ddiolchgar am yr ymateb cefnogol yn gyffredinol, er ein bod yn nodi'r pryder yn ymwneud â gwaith coedwigaeth sy'n effeithio ar goed penodol o werth arbennig. Byddwn yn ystyried a ddylai hyn fod yn destun canllawiau.

## 7. Coed mewn ardal gadwraeth

7.1. Roedd y cwestiynau blaenorol yn ymwneud â'r angen i gael cydsyniad ar gyfer gwaith ar goeden sy'n cael ei gwarchod gan orchymyn cadw coed neu orchymyn cadw coetir. Mater sy'n gysylltiedig â hyn yw natur y gofyniad i hysbysu'r awdurdod cynllunio am waith ar goeden nad yw'n cael ei gwarchod mewn ardal gadwraeth.

| | |
|---|---|
| **C16** | O ran yr angen i hysbysu am waith ar goed mewn ardal gadwraeth nad ydynt yn cael eu gwarchod gan orchymyn cadw, a ydych yn ystyried bod yr eithriadau presennol yn briodol? |

7.2. Gwnaethom nodi ein bod yn bwriadu cadw'r holl eithriadau presennol, yn gyffredinol fel y'u nodir uchod mewn perthynas â Dosbarthiadau A i F.

7.3. Ymatebodd 29 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, ac roedd 23 ohonynt yn cytuno.

7.4. O'r rhai a oedd yn anghytuno, roedd un yn pryderu am y terfyn maint yn unig – gweler o dan y cwestiwn canlynol. Roedd dau ymatebydd o'r farn y dylai pob coeden mewn ardaloedd cadwraeth gael yr un lefel o warchodaeth yn awtomatig â'r rhai a warchodir gan orchymyn cadw coed.

7.5. Cododd sawl ymatebydd faterion a godwyd ganddynt mewn cysylltiad ag eithriadau i'r angen i gael cydsyniad gorchymyn cadw coed – yn enwedig Dosbarthiadau A a B. Mae'r rhain wedi'u nodi uchod.

7.6. Roedd y pwyntiau sy'n berthnasol i goed nad ydynt yn cael eu gwarchod mewn ardaloedd cadwraeth yn cynnwys yr angen i awdurdodau cynllunio hysbysu pobl am waith ar eu coed eu hunain. Awgrymodd dau ymatebydd y byddai'r eithriad sy'n ymwneud â gwaith ar goed bach yn helpu i reoli asedau treftadaeth mewn ardaloedd cadwraeth.

| | |
|---|---|
| C17 | A ydych yn ystyried bod yr eithriad sy'n ymwneud â gwaith ar goed bach mewn ardaloedd cadwraeth yn briodol? |

7.7. Roedd 31 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. Roedd 25 wedi cytuno â'r meintiau presennol, ac roedd cytundeb pump ohonynt yn amodol ar sylwadau. Nododd un ymatebydd y gallai coed bach dyfu'n goed aeddfed amwynder uchel; ac y gallai'r terfyn priodol amrywio rhwng rhywogaethau gwahanol; ond byddai gostwng y terfynau maint (neu ddiddymu'r eithriad yn gyfan gwbl) yn arwain at fwy o waith i'r awdurdodau. Awgrymodd dau ymatebydd y gallai fod yn well defnyddio un maint ym mhob achos (yn hytrach na gwahaniaethu rhwng coed aml-goesyn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) – 100mm o bosibl.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiynau 16 a 17*

7.8. Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion, sy'n dangos bod yr eithriadau presennol yn ymddangos yn dderbyniol ar y cyfan. Mae unrhyw newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r eithriadau i'r angen i gael cydsyniad ar gyfer gwaith ar goed sydd â gorchymyn cadw coed fel y nodir yn adran 6 uchod yn debygol o fod yn berthnasol i goed nad oes ganddynt orchymyn cadw coed mewn ardaloedd cadwraeth.

## 8. Ceisiadau am gydsyniad ar gyfer gweithgareddau gwaharddedig

8.1. Mae cwestiynau 18 i 23 yn ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer cael cydsyniad i wneud gwaith ar goed gwarchodedig. Yn gyffredinol, rydym yn bwriadu cadw'r gweithdrefnau presennol ond rydym yn awyddus i wybod a oes modd addasu hyn mewn unrhyw ffordd er mwyn gweithredu'n fwy boddhaol.

| | |
|---|---|
| C18 | A ydych yn ystyried bod y gweithdrefnau cydsyniad presennol o dan Reoliadau 1999 yn gweithredu'n foddhaol? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |

8.2. Roedd 28 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. Cytunodd 24 fod y gweithdrefnau presennol yn foddhaol, a chafwyd tri sylw bach iawn yn unig.

8.3. Dywedodd un ymatebydd y byddai'n ddymunol i ymgeiswyr orfod darparu gwybodaeth am fioamrywiaeth a rhywogaethau gwarchodedig. Ac awgrymodd un y byddai'n ddefnyddiol gwneud darpariaeth benodol ar gyfer “penderfyniadau hollt” (lle, er enghraifft, mae cais yn cael ei gyflwyno am gydsyniad i gwympo dwy goeden warchodedig, ond bod cydsyniad yn cael ei roi i gwympo un yn unig).

| | |
|---|---|
| C19 | A ydych yn ystyried bod y rhestr o fathau o amodau y gellir eu gosod ar gydsyniad yn briodol? |

8.4. Roedd 30 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn; roedd 29 yn cytuno (mewn rhai achosion yn amodol ar sylwadau). Roedd yr un a anghytunodd

yn pryderu am y gymhareb plannu coed newydd 3:1 a bennir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

8.5. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â chategorïau'r amodau a awgrymwyd. Roedd rhai wedi cyflwyno sylwadau manwl – er enghraifft, mewn perthynas â safonau gwaith, plannu coed newydd, ac archaeoleg. Roedd sawl un yn pryderu na fyddai pob un o'r amodau a awgrymwyd yn addas bob tro.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiynau 18 a 19*

8.6. Rydym yn croesawu'r ymatebion i'r cwestiynau hyn, sy'n dangos cefnogaeth gyffredinol i'r trefniadau gweithdrefnol presennol. Byddwn yn ystyried a oes angen gwneud darpariaethau penodol i ganiatáu penderfyniadau hollt. Byddwn yn ystyried y sylwadau am amodau, a fydd yn ddefnyddiol wrth gyflwyno'r canllawiau i gyd-fynd â'r Rheoliadau. Rydym yn nodi'r pryder a godwyd (mewn ymateb i'r cwestiynau hyn a chwestiynau eraill) yn ymwneud â'r polisïau plannu coed newydd ym Mholisi Cynllunio Cymru a byddwn yn ystyried hyn yn ofalus wrth gynhyrchu canllawiau.

| | |
|---|---|
| **C20** | A ydych yn cytuno ei bod yn amhriodol ymestyn gorchymyn cadw presennol i warchod coeden newydd y mae'n ofynnol ei phlannu ac y byddai angen gwneud gorchymyn cadw newydd os yn briodol? |

8.7. Ymatebodd 32 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, ac roedd 19 ohonynt (dros hanner) naill ai'n anghytuno (13) neu'n cytuno yn amodol ar sylwadau (6).

8.8. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebion bwysigrwydd sicrhau bod coed newydd yn cael eu plannu a bod y coed hynny'n cael eu sefydlu a'u gwarchod. O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn penodol ynglŷn ag a ddylai'r hen orchymyn warchod y goeden newydd, roedd safbwyntiau wedi'u rhannu. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr y problemau gweinyddol a fyddai'n debygol o godi tra bod eraill o'r farn y byddai gorchymyn newydd yn fwy priodol, yn enwedig mewn achos lle mae dwy goeden neu fwy yn cael eu plannu i gymryd lle un goeden.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 20*

8.9. Rydym yn ddiolchgar am yr ystod eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Rydym yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd sicrhau bod coed newydd yn cael eu plannu mewn achosion priodol, a byddwn yn ystyried yn ofalus beth yw'r ffordd fwyaf defnyddiol o sicrhau bod modd cyflawni hyn mewn ffordd mor effeithiol â phosibl.

| | |
|---|---|
| **C21** | A ydych yn ystyried bod angen darpariaeth sy'n galluogi awdurdod cynllunio i osod cyfarwyddyd i sicrhau coed amnewid mewn coetir, yn hytrach na gosod amod plannu coed amnewid? |

8.10. Ar hyn o bryd, gall cydsyniad ar gyfer cwympo coed sy'n cael eu gwarchod gan orchymyn fel rhan o goetir gael ei ategu gan gyfarwyddyd sy'n gorchymyn plannu coed newydd. Mewn achosion eraill, mae'n bosibl y bydd cydsyniad yn cael ei ategu gan amod sy'n nodi bod yn rhaid plannu coed newydd. Gwnaethom nodi nad oedd yn ymddangos bod angen y ddau

fecanwaith gwahanol, gan ofyn i'r ymatebwyr a ydynt yn meddwl bod angen y ddau.

8.11. Roedd 28 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. Cytunodd 15 (gan gynnwys yr holl awdurdodau cynllunio, y cyrff statudol eraill a'r cyrff arbenigol sy'n gysylltiedig â choed) nad oedd angen y ddau fecanwaith.

8.12. Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd yn gadarnhaol wedi rhoi unrhyw resymau, ond ni roddwyd unrhyw resymau i gefnogi'r syniad o gadw'r ddau fecanwaith. Roedd pawb a gyflwynodd sylwadau yn credu mai gosod amodau oedd y mecanwaith mwy priodol.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 21*

8.13. Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion, sydd wedi dangos cefnogaeth gyffredinol i ddileu cyfarwyddiadau ailblannu.

| | |
|---|---|
| **C22** | A ydych yn cytuno y dylai fod darpariaeth sy'n llywodraethu'n benodol y broses o benderfynu ar gais am drwydded cwympo coed a gyfeirir at Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf Coedwigaeth? |

8.14. Roedd 25 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. Cytunodd pob un ond un y dylai fod gweithdrefn sy'n llywodraethu ceisiadau o'r fath. Pwysleisiodd dau ymatebydd fod angen i'r awdurdod cynllunio allu cyfrannu at y broses yn unol â chyfnod amser cyfyngedig.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 22*

8.15. Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion. Bydd y Rheoliadau yn darparu ar gyfer gweithdrefn briodol, ac rydym yn nodi'r awgrym y dylai fod hawl awtomatig i awdurdod ymateb.

| | |
|---|---|
| **C23** | A ydych yn ystyried bod y trefniadau presennol ar gyfer ymdrin â cheisiadau gan awdurdodau cynllunio ar gyfer eu gwaith eu hunain yn gweithredu'n foddhaol? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |

8.16. Roedd 26 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. Nododd 21 fod y weithdrefn bresennol yn gweithredu'n foddhaol (ni chafwyd unrhyw sylwadau). Pwysleisiodd dau fod angen ymdrin â cheisiadau gan awdurdodau mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes buddiannau'n gwrthdaro.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 23*

8.17. Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion, sy'n dangos bod y weithdrefn yn gweithredu'n foddhaol ar y cyfan.

## 9. Apelau ac iawndal

9.1. Pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais am gydsyniad, gallai'r cais gael ei wrthod, gallai gael ei dderbyn yn amodol ar amodau beichus, neu efallai na fydd unrhyw ymateb o gwbl. Gall unrhyw un o'r rhain arwain at gyflwyno apêl

i Weinidogion Cymru. Ac mae'n bosibl y bydd penderfyniad (gan yr awdurdod neu Weinidogion Cymru) sy'n arwain at golled ariannol yn arwain at hawliad am ddigolledu.

| | |
|---|---|
| **C24** | A ydych yn ystyried bod y trefniadau presennol ar gyfer ymdrin ag apelau cydsyniad coed yn gweithredu'n foddhaol? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |

9.2. Atebodd 25 o ymatebwyr. Dywedodd 22 ohonynt fod y system bresennol yn gweithredu'n foddhaol. Fodd bynnag, pwysleisiodd sawl un y byddai'n ddymunol sicrhau bod apelau cydsyniad coed yn cael eu penderfynu gan arolygwyr arbenigol sydd ag arbenigedd priodol.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 24*

9.3. Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n dangos cefnogaeth gyffredinol i'r system bresennol.

| | |
|---|---|
| **C25** | A ydych o'r farn bod y darpariaethau presennol o ran yr hawl i ddigolllediad, a'r weithdrefn ar gyfer hawliadau, yn gweithredu'n foddhaol? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |

9.4. Roedd 26 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. Nododd 19 o ymatebwyr fod y system bresennol yn foddhaol, ond dywedodd sawl un mai ychydig iawn o brofiad ymarferol sydd ganddynt o'r system.

9.5. O'r rhai a oedd yn anghytuno, nododd tri bod yr hawl i ddigolllediad wedi arwain at awdurdodau yn rhoi cydsyniad ar gyfer gwaith ar goed gwerthfawr y dylid eu cadw. Mae'r broblem hon yn berthnasol iawn mewn achosion lle mae adeilad yn ymsuddo.

| | |
|---|---|
| **C26** | A ydych o'r farn bod y trefniadau trosiannol a nodir ym mharagraff 16.4 o'r ddogfen hon yn ffordd foddhaol o ymdrin ag achosion lle mae tystysgrif erthygl 5 yn parhau mewn grym o dan orchymyn cadw coed cyn 1999? A ydych yn ymwybodol o achosion sy'n cynnwys tystysgrifau o'r fath? |

9.6. Dim ond 22 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn. Nodwn fod nifer o ymatebwyr wedi datgan yn benodol nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion yn ymwneud â thystysgrifau erthygl 5.

9.7. Dywedodd tri ymatebydd eu bod yn cefnogi cyfarwyddiadau erthygl 5 mewn egwyddor ond ni wnaethant unrhyw sylwadau am y trefniadau trosiannol sy'n cael eu cynnig ar gyfer cyfarwyddiadau presennol.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiynau 25 a 26*

9.8. Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion i'r cwestiynau hyn. Mae'n bosibl y bydd yr hawl i ddigolllediad a'r anallu i wneud cyfarwyddiadau erthygl 5 newydd yn arwain at y canlyniadau sydd wedi'u hamlinellu gan rai ymatebwyr, ond nid ydynt yn arwain at lawer o hawliadau mewn gwirionedd, o bosibl o ganlyniad i gryfhau'r gofynion ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yn ymwneud â cholled yr honnir ei bod wedi'i hachosi gan goed (gweler rheoliad 9B(1)(c)(iv) o Reoliadau 1999, a fewnosodwyd yn 2012).

9.9. Ni fu’n bosibl ers 1999 i awdurdod wneud cyfarwyddyd erthygl 5 wrth wneud penderfyniad ar gais ar gyfer cydsyniad. Felly, roedd cwestiwn 26 yn ymwneud yn unig ag effaith barhaus cyfarwyddiadau a wnaed cyn y dyddiad hwnnw. Rydym yn nodi nad oes unrhyw anghytundeb wedi bod ynglŷn â'r trefniadau trosiannol a awgrymwyd.

## 10. Amnewid coed

10.1. Ar ôl symud ymaith goeden sy'n cael ei gwarchod gan orchymyn cadw coed neu orchymyn cadw coetir neu sydd mewn ardal gadwraeth, mewn rhai achosion mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol plannu coeden amnewid.

| | |
|---|---|
| **C27** | A ydych yn cytuno â'r hysbysiad amnewid coed enghreifftiol yn Atodiad 5 i'r ddogfen hon? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |

10.2. Roedd 26 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. Roedd pob un ond un yn cytuno â'r ffurflen enghreifftiol sydd wedi'i chynnig. Roedd sawl un wedi gwneud awgrymiadau ar gyfer newidiadau drafftio posibl er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd sefydlu a chynnal coed sydd newydd eu plannu.

| | |
|---|---|
| **C28** | A ydych yn cytuno y dylid plannu coeden amnewid lle caiff coeden sy'n destun gorchymyn cadw coed neu mewn ardal gadwraeth ei symud ymaith er mwyn dileu risg uniongyrchol o niwed difrifol? A allwch wneud sylwadau ar sut mae'r gofyniad hwn yn gweithredu'n ymarferol? |

10.3. Atebodd 32 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac roedd 27 ohonynt yn cytuno (yn amodol ar sylwadau mewn rhai achosion).

10.4. Roedd sawl ymatebydd wedi gwneud sylwadau am yr amgylchiadau gofynnol ar gyfer amnewid coeden, a ble y dylid ei phlannu. Mae'r sylwadau yn dangos nad yw gofyniad o'r fath yn briodol bob amser.

| | |
|---|---|
| **C29** | A ydych yn ystyried bod y trefniadau presennol ar gyfer ymdrin ag apelau amnewid coed yn gweithredu'n foddhaol? A oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |

10.5. Roedd 23 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn ac roedd 20 yn cytuno. Ychydig iawn o sylwadau a gafwyd.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiynau 27 i 29*

10.6. Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion i'r cwestiynau hyn. Byddwn yn ystyried y sylwadau a wnaed ynglŷn â drafftio hysbysiad amnewid coed, gan ystyried yn benodol a fyddai'n well ymdrin â nhw yn yr hysbysiad drafft ei hun (yn y Rheoliadau) neu yn y canllawiau ategol.

10.7. Byddwn yn ystyried yn ofalus y sylwadau ynglŷn ag a oes angen ei gwneud yn ofynnol bod coeden amnewid yn cael ei phlannu, yn enwedig wrth lunio'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau.

10.8. Fel arall, mae'r gweithdrefnau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag apelau, yn debygol o gael eu cadw fel maen nhw ar hyn o bryd.

## 11. Pwyntiau amrywiol

| | |
|---|---|
| C30 | A ydych yn cytuno y dylai rheoliadau gynnwys manylion hysbysiad o waith arfaethedig i goed mewn ardal gadwraeth yn ogystal â'r manylion a amlinellir ym mharagraff 18.3? |

| | |
|---|---|
| C31 | A allwch roi manylion ynghylch sut mae cofrestrau'n cael eu cynnal yn ymarferol? |

11.1. Roedd 29 o ymatebwyr wedi ateb cwestiwn 30. Roedd 26 yn cytuno â'r cynnig cyffredinol, ac ychydig iawn o sylwadau a gafwyd.

11.2. Roedd un awdurdod yn cwestiynu'r angen am ofyniad ffurfiol i gynnal cofrestr, gan nad yw wedi derbyn llawer o geisiadau i'w harchwilio.

11.3. Cafwyd rhai awgrymiadau manwl ynglŷn â sut y gellid neu y dylid cynnal cofrestrau. Gellid defnyddio systemau rheoli dogfennau digidol neu systemau rheoli dogfennau eraill, o bosibl ar y cyd â'r gofrestr o geisiadau a phenderfyniadau cynllunio. Awgrymodd rhai y dylid safoni'r broses o gynnal cofrestrau, er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd i aelodau o'r cyhoedd wybod a yw coed penodol yn cael eu gwarchod.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiynau 30 a 31*

11.4. Rhaid cynnal cofrestr o orchmynion a cheisiadau er mwyn sicrhau bod perchnogion a chontractwyr yn gwybod a yw coeden wedi'i gwarchod, gan osgoi'r posibilrwydd o gael eu herlyn am wneud gwaith ar y goeden. Bydd y rheoliadau yn amlinellu'r gofynion cyffredinol ar gyfer y wybodaeth sydd angen ei chynnwys yn y gofrestr.

11.5. Bydd y canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau yn amlinellu arferion gorau, a allai newid o bryd i'w gilydd ar sail profiadau. Bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn ddefnyddiol wrth lunio'r canllawiau.

| | |
|---|---|
| C32 | Beth, yn eich barn chi, y dylid ei gadw neu ei ddisodli o fewn y canllawiau presennol (gweler Atodiad 2)? |

11.6. Mynegodd 24 o ymatebwyr safbwyntiau mewn ateb i'r cwestiwn hwn.

11.7. Roedd cytundeb cyffredinol bod TAN 10 (*Gorchmynion Cadw Coed*, 1997) wedi dyddio ac yn rhy sylfaenol. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol cael un ffynhonnell ar gyfer y canllawiau, yn unol â safon *Tree Preservation Orders: A Guide to the Law and Good Practice* (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn 2000 ac a ddiweddarwyd yn 2009; a elwir hefyd y “Llyfr Glas”).

11.8. Awgrymwyd y byddai modd cynnwys y pynciau canlynol yn y canllawiau (yn ogystal â'r rhai a nodwyd uchod mewn ymateb i gwestiynau eraill): y meini prawf ar gyfer gwneud gorchmynion cadw coed a gorchmynion cadw coetir, a dulliau asesu; diffiniad o'r term “coetir”, arwyddocâd coed hynafol a choed

hynod; asesu gwerth bioamrywiaeth a chynefinoedd; yr angen i blannu coed amnewid; yr angen i ystyried cyfundrefnau cydsynio eraill (bywyd gwyllt ac archaeoleg yn benodol); ac effaith gwahanol fathau o waith coed.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 32*

11.9. Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, a fydd yn ddefnyddiol i ni wrth baratoi'r canllawiau i gyd-fynd â'r Rheoliadau.

| | |
|---|---|
| **C33** | Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y Rheoliadau ar yr iaith Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Ydych chi’n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi’n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol? |

| | |
|---|---|
| **C34** | Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r Rheoliadau er mwyn sicrhau:<br>(a) eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? neu<br>(b) nad yw’n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? |

11.10. Roedd 13 ymatebydd wedi ateb cwestiwn 33, ac 11 ymatebydd wedi ateb cwestiwn 34.

11.11. Ychydig iawn a nododd unrhyw effeithiau negyddol tebygol ar y defnydd o'r Gymraeg.

11.12. Nododd sawl ymatebydd y byddai cyhoeddi'r Rheoliadau yn y ddwy iaith yn gyfle i ddarparu'r holl ddogfennau (gorchmynion, TRNs ac ati) yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, lle nad yw hyn yn digwydd eisoes. Hefyd, byddai'n gyfle i lunio canllawiau newydd yn y ddwy iaith, gan gynyddu gwybodaeth am derminoleg coetir Cymru, rhywogaethau coed brodorol cyffredin ac ati.

11.13. Hefyd, roedd nifer yn pwysleisio'r ffaith ei bod yn ddymunol i awdurdodau cynllunio allu darparu gwasanaeth gwirioneddol ddwyieithog.

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiynau 33 a 34*

11.14. Bydd y rheoliadau (gan gynnwys y ffurflenni a'r hysbysiadau enghreifftiol) yn cael eu llunio yn y ddwy iaith, felly hefyd y canllawiau cysylltiedig.

| | |
|---|---|
| **C35** | A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o gyfrifo effaith cost y newidiadau? Os na, a allech ddarparu tystiolaeth ynghylch cost y swyddogaethau coed ar gyfer awdurdodau cynllunio yng Nghymru. |

11.15. Ychydig iawn o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn. O'r 14 a atebodd, roedd 12 yn cytuno â'r dull arfaethedig.

11.16. Nododd un ymatebydd nad yw'r swyddogaeth goed oddi mewn i'r gwasanaeth cynllunio yn cynhyrchu unrhyw incwm uniongyrchol, sy'n un rheswm posibl am y ffaith ei bod yn tueddu i fod yn adweithiol (ymateb i geisiadau) yn hytrach nag yn rhagweithiol (er enghraifft, diweddaru hen orchmynion).

*Ymateb Llywodraeth Cymru: cwestiwn 35*

11.17. Bydd yr ymatebion hyn yn llywio'r asesiad effaith rheoleiddiol a fydd yn cyd-fynd â'r rheoliadau.

## 12. Pwyntiau atodol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau blaenorol

12.1. Roedd y cwestiwn olaf yn gwahodd ymatebwyr i wneud unrhyw sylwadau nad oeddent wedi'u gwneud mewn ymateb i'r cwestiynau cynharach.

12.2. Roedd rhai wedi manteisio ar y cyfle i groesawu'r cynigion yn gyffredinol.

12.3. Roedd eraill wedi gwneud sylwadau am bynciau penodol, ac rydym wedi eu crynhoi isod mewn perthynas â phob pwnc. Hefyd, rydym wedi cynnwys yma un neu ddau bwynt a godwyd mewn ymateb i gwestiynau eraill.

| | |
|---|---|
| **C36** | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os ydych yn teimlo bod unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi. |

*Gwaith i atal neu leihau niwsans*

12.4. Nodwyd yn y Papur Ymgynghori ein bod yn cynnig peidio â chynnwys yr eithriad presennol yn ymwneud â "gwaith sy'n angenrheidiol i atal neu leihau niwsans". Ond ni ofynnwyd unrhyw gwestiwn penodol am y mater hwn, gan fod ein cynnig wedi deillio o argymhelliad gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad, *Cyfraith Gynllunio yng Nghymru*, a oedd wedi bod yn destun ymarferiad ymgynghori (a gafodd gefnogaeth gyffredinol).

12.5. Fodd bynnag, roedd sawl ymatebydd i'r ymarferiad ymgynghori presennol wedi cyfeirio at yr eithriad hwn yn eu hatebion i'r cwestiwn hwn neu i gwestiynau eraill.

12.6. Cefnogwyd y penderfyniad i hepgor yr eithriad hwn gan y Gymdeithas Coedyddiaeth, Coed Cadw, a'r Fforwm Coed Hynafol.

12.7. Pwysleisiodd un ymatebydd fod yn rhaid i'r awdurdod cynllunio neu'r arolygydd cynllunio fod yn gyfrifol am ddifrod sy'n deillio o'r goeden; gwneir hyn trwy sicrhau bod digolledaid ar gael.

12.8. Pwysleisiodd un ymatebydd yn gryf iawn bod angen cadw'r eithriad.

12.9. Wrth gyfeirio at fater cysylltiedig, awgrymodd un ymatebydd y dylai canllawiau bwysleisio nad yw coed yn beryglus dim ond oherwydd eu bod yn bargodi dros eiddo arall.

*Gwaith anawdurdodedig*

12.10. Gofynnodd un ymatebydd a fyddai'n bosibl cael system debyg i "hysbysiadau stop" fel bod awdurdodau yn gallu atal gwaith arfaethedig ar goed.

12.11. Roedd un ymatebydd yn cefnogi awgrym Comisiwn y Gyfraith i resymoli troseddau gwaith coed.

*Gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth*

12.12. Awgrymodd un ymatebydd y dylai pob coeden mewn ardal gadwraeth sy'n deilwng o gael ei gwarchod gan orchymyn gwarchod coed fod wedi cael ei nodi erbyn hyn, a gofynnodd a oes unrhyw angen parhaus i roi gwybod am yr holl waith ar goed nad ydynt yn cael eu gwarchod mewn ardaloedd cadwraeth. Dylai awdurdodau cynllunio fod yn gyfrifol am ystyried coed wrth adolygu ffiniau ardaloedd cadwraeth.

12.13. Awgrymwyd bod y system ar gyfer rhoi gwybod am waith ar goed mewn ardal gadwraeth nad ydynt wedi'u gwarchod gan orchymyn yn anfoddhaol iawn.

12.14. Awgrymodd un ymatebydd y dylai awdurdod cynllunio roi gwybod am waith ar ei goed ei hun mewn ardal gadwraeth, fel sy'n digwydd ar gyfer gwaith ar goeden sy'n destun gorchymyn cadw coed.

*Coed mewn parciau a gerddi rhestredig*

12.15. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at bwysigrwydd coed mewn parciau a gerddi rhestredig, a chyfraniad coed at gymeriad arbennig y lleoedd hyn.

*Coed ar briffyrdd*

12.16. Awgrymodd un ymatebydd fod angen gorchmynion cadw coed ar gyfer coed awdurdod cynllunio (gan gynnwys coed ar briffyrdd) sydd o werth amwynder.

*Pwyntiau cyffredinol*

12.17. Roedd sawl ymatebydd yn credu'n gryf bod angen adolygu gorchmynion cadw coed yn rheolaidd. Hefyd, roeddent o’r farn y dylai canllawiau hyrwyddo ymarfer da yn gyson ledled Cymru.

*Ymateb Llywodraeth Cymru*

12.18. Rydym yn croesawu'r amrywiol bwyntiau a godwyd a byddwn yn eu hystyried wrth lunio'r Rheoliadau a'r canllawiau cysylltiedig.

12.19. Os nad oes modd gweithredu arnynt ar hyn o bryd, byddant yn cael eu cadw er mwyn eu cynnwys yn y dyfodol o bosibl.

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr yn ôl categori

### Awdurdodau cynllunio

Grŵp Swyddogion Coed a Thirwedd Gogledd Cymru - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Caerdydd

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Abertawe

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Awdurdodau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog

### Cynghorau cymuned

Cas-gwent

Llangollen

Un cyngor sy'n dymuno aros yn ddienw

### Cyrff statudol

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

### Cyrff arbenigol sy'n gysylltiedig â choed

Cymdeithas y Swyddogion Coed

Y Gymdeithas Coedyddiaeth

Coed Cadw

Fforwm Coed Hynafol

### Cyrff proffesiynol a grwpiau buddiant eraill

Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol Cymru

RTPI Cymru

RSPB Cymru

NFU Cymru

Undeb Amaethwyr Cymru

**Cyrff gwirfoddol**

Cyfeillion y Ddaear Pontypridd

Dau gorff sy'n dymuno aros yn ddienw

**Busnesau, ymgynghorwyr**

Cartrefi Barratt Redrow

Gwasanaethau Coed Julian Morris

Andrew Sumner (pensaer tirwedd)

Dau sefydliad sy'n dymuno aros yn ddienw

**Unigolion**

Wyth unigolyn